# Gweledigaeth ar gyfer Cymru lle na fydd neb yn marw o ganser y coluddyn




Bowel Cancer UK
Beating bowel cancer together
Curo canser y coluddion gyda'n gilydd

## Ni yw prif elusen canser y coluddyn y DU. Rydym yn benderfynol o achub bywydau a gwella ansawdd bywyd pawb y mae canser y coluddyn yn effeithio arnynt.

Ein gweledigaeth yw dyfodol yng Nghymru lle na fydd neb yn marw o'r clefyd. Rydym yn cefnogi ac yn ariannu ymchwil wedi'i thargedu, yn cynnig gwybodaeth a chymorth arbenigol i gleifion a'u teuluoedd, yn addysgu'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am y clefyd ac yn ymgyrchu dros ddiagnosis cynnar a mynediad at y driniaeth a'r gofal gorau.

# Canser y coluddyn yw'r pedwerydd canser mwyaf cyffredin yng Nghymru, ond yr ail brif achos o farwolaethau oherwydd canser.



## Mae 9 o bob 10 yn goroesi canser y coluddyn os cânt ddiagnosis yn y cam cynharaf.

Bob blwyddyn, mae tua 2,400 o bobl yn cael diagnosis o ganser y coluddyn yng Nghymru, ac yn drist, mae bron i 1,000 o bobl yn marw o'r clefyd.

Ond nid oes rhaid i bethau fod fel hyn. Gellir trin canser y coluddyn a'i wella, yn enwedig os ceir diagnosis cynnar. Fodd bynnag, mae llai na phedwar ym mhob 10 o bobl (37.1%) â chanser y coluddyn yn cael diagnosis yn y camau cynnar, sef camau 1 a 2, ac mae dros hanner y bobl (51%) yn cael diagnosis yng nghamau 3 a 4. Mae'n rhaid newid hyn os ydym am wireddu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol lle na fydd neb yng Nghymru yn marw o ganser y coluddyn.

## Gwaith Bowel Cancer UK yng Nghymru

Rydym yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau cymorth a gwybodaeth i bobl y mae canser y coluddyn yn effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau mewn angen, megis ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol a chymunedau sydd â gwahanol gymunedau ethnig. Mae gennym dîm ymroddedig o wirfoddolwyr codi ymwybyddiaeth yng Nghymru y mae canser y coluddyn wedi effeithio ar bob un ohonynt. Maent yn cyflawni sesiynau i godi ymwybyddiaeth o ganser y coluddyn wyneb yn wyneb ac ar-lein i grwpiau cymunedol a gweithleoedd, ac yn cynnal stondinau codi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau, gan helpu pobl i ddeall arwyddion, symptomau a ffactorau risg y clefyd, yn ogystal â phwysigrwydd sgrinio.

Yn 2025, cynaliasom stondinau a sesiynau codi ymwybyddiaeth ar draws Cymru a gyrhaeddodd dros 2,100 o bobl.

Ar ben hynny, rydym yn ymgysylltu â phobl sydd fel arfer heb wasanaethau digonol ac mae anghydraddoldebau iechyd yn cael effaith anghyfartal arnynt yng Nghymru, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd, cymunedau sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, pobl sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau prawf, a mwy na 1,200 o bobl drwy ymgysylltiad uniongyrchol â'r gymuned yn Abertawe.

## Ein gwaith gyda Senedd Cymru

Rydym yn ymgysylltu ag ac yn briffio Aelodau o'r Senedd ac yn aelod o Gynghrair Canser Cymru hefyd. Clymblaid o elusennau yw hon sy'n gweithio i atal canser, gwella gofal, ariannu ymchwil a dylanwadu ar bolisi yng Nghymru.

Rydym yn cefnogi'r prif argymhellion a gyhoeddir yn y maniffesto diweddar ***Gosod y Sylfeini*** gan Gynghrair Canser Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys strategaeth ganser hir dymor newydd i Gymru, arweinyddiaeth gyson i wasanaethau canser yng Nghymru gydag atebolrwydd clir, cynnwys cleifion a'r trydydd sector mewn datblygu gwasanaethau canser, a chasglu data ar wasanaethau canser a phrofiad cleifion yn rheolaidd i fod yn sail diwylliant gwella.



Sioe deithiol codi ymwybyddiaeth Bowel Cancer UK yn Abertawe

# Ein prif argymhellion i lywodraeth nesaf Cymru

**1 Mae'n rhaid i lywodraeth nesaf Cymru flaenoriaethu gwella'r rhaglen sgrinio canser y coluddyn a chynyddu'r nifer o bobl sy'n ei defnyddio, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.**

Mae sgrinio am ganser y coluddyn yn achub bywydau. Yng Nghymru, mae pawb rhwng 50 a 74 oed yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn rhaglen sgrinio bob dwy flynedd gan ddefnyddio prawf cartref syml sy'n chwilio am waed cudd mewn sampl ysgarthion. Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn argymell bod sgrinio yn cael ei gyflawni ar y trothwy mwyaf sensitif y gall gwasanaethau diagnostig ei gefnogi'n ddiogel.
Po fwyaf sensitif yw'r prawf, y mwyaf o achosion o ganser a gaiff eu hatal a'u canfod yn gynharach, gan achub mwy o fywydau. Rydym am weld Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i wella'r rhaglen sgrinio canser y coluddyn, gan gefnogi ymchwil a mabwysiadu dulliau arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gyflym er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o lwybrau diagnostig.
Ar yr un pryd, dim ond 65% o bobl yng Nghymru a wahoddir i gymryd rhan mewn rhaglen sgrinio sy'n cwblhau'r 'prawf ysgarthion' cartref. Mae hyn yn golygu bod miloedd o bobl yn colli'r cyfle i ddarganfod canser y coluddyn yn gynnar pan fo modd ei drin yn haws. Rydym yn gweithio i annog pobl i gymryd rhan yn y rhaglen Sgrinio Canser y Coluddyn, yn enwedig cymunedau heb wasanaethau digonol, lle mae cyfraddau cyfranogiad yn is.

Mae'n rhaid i lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i gynllun clir i wella sgrinio canser y coluddyn, gan gynnwys lleihau trothwy'r prawf yn ddiogel dros amser, ehangu capasiti diagnostig, cynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r profion mewn cymunedau difreintiedig, a chefnogi arloesi. Drwy gymryd gweithredoedd wedi'u cydlynu ar draws y meysydd hyn, gallwn wella diagnosis cynnar ac atal rhagor o bobl yng Nghymru rhag cael gwybod bod ganddynt ganser y coluddyn yn rhy hwyr.

**Tabl sensitifrwydd FIT:**


| Cenedl | Oedran cymhwysedd (50-74 oed) | Trothwy FIT (20μg/g)* |
|---|---|---|
| Lloegr | 50-74 | 120μg/g ->80μg/g** |
| Yr Alban | 50-74 | 80μg/g |
| Cymru | 50-74 | 80μg/g |
| Gogledd Iwerddon | 60-74 | 120μg/g |

* Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU wedi nodi mai 20μg yw'r trothwy optimaidd ar gyfer FIT wrth sgrinio am ganser y coluddyn
**Disgwylir cwblhau cwmpas cenedlaethol y trothwy is yn Lloegr erbyn 2028

## 2 Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â marwolaethau canser y coluddyn drwy fynd i'r afael â diagnosis brys.

Mae diffyg data penodol ar gyfer Cymru, ond rydym yn gwybod bod tua 1 ym mhob 4 achos o ganser y coluddyn yn cael ei ddiagnosio mewn argyfwng ledled y DU, er enghraifft, pan fydd cymhlethdodau sydyn yn golygu bod rhywun yn mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. I'r cleifion hyn, mae'r clefyd yn tueddu i fod yn fwy datblygedig ac mae'n anos ei drin ac mae'r canlyniadau, yn anffodus, yn tueddu i fod yn waeth. Nid yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yw'r lle gorau i gael gwybod bod gennych ganser y coluddyn, ac rydym am weld dyfodol pan na fydd hyn yn digwydd. Dyfodol pan y bydd symptomau'n cael eu hadnabod yn gynharach a chleifion yn cael eu cyfeirio'n gyflym.

Bydd mynd i'r afael â diagnosis brys yn helpu i leihau marwolaethau diangen o ganser y coluddyn. Fodd bynnag, mae'r ddealltwriaeth o pam a sut mae diagnosis yn digwydd mor aml mewn achosion brys yn dal yn gyfyngedig. Mae ein hadroddiad diweddar *Behind the Emergency* yn amlygu profiadau pobl sydd wedi cael diagnosis o ganser y coluddyn mewn lleoliad brys. Rydym yn gofyn i lywodraeth nesaf Cymru weithio gyda ni i gael dealltwriaeth well o'r ffactorau sy'n gallu arwain at ddiagnosis brys, a'r hyn sy'n gallu cael ei wneud i atal pobl rhag cyrraedd argyfwng.



## 3 Cefnogi llwybrau rheoli a phrofion syndrom Lynch.

Mae gormod o bobl â syndrom Lynch yn dal i fod yn anymwybodol bod y syndrom ganddynt. Mae'r cyflwr etifeddol hwn yn gallu cynyddu'r risg o ddatblygu canser y coluddyn hyd at 80%, ond dim ond 5% o bobl â syndrom Lynch yn y DU sydd wedi cael eu nodi. Mae canfod a rheoli canser y coluddyn etifeddol yn hanfodol er mwyn ei ganfod yn gynnar, cadw golwg arno, a'i atal. Mae Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol, gan gynnwys profion tiwmor rheolaidd i bawb sydd newydd gael diagnosis o ganser y coluddyn er mwyn helpu i sicrhau bod pobl yn cael profion ac yn cael eu cefnogi'n gyson.

Nawr, mae angen i lywodraeth nesaf Cymru fynd ymhellach drwy sefydlu cofrestrfa syndrom Lynch genedlaethol ar gyfer Cymru, er mwyn nodi teuluoedd yn gynharach, cadw mewn cysylltiad â nhw, a'u cefnogi i atal canser y coluddyn neu i'w ganfod mor fuan â phosib.

## 4 Cefnogi casgliadau adroddiad Archwilio Cymru am ddull mwy strategol o gynllunio'r gweithlu iechyd fel bod canser y coluddyn yn cael ei ddiagnosio'n gynharach.

Yn Ionawr 2025, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad yn dangos bod gwasanaethau canser y coluddyn yng Nghymru yn methu â chwrdd â thargedau amseroedd aros allweddol, gyda llai na hanner o'r cleifion yn dechrau triniaeth o fewn y nod o 62 diwrnod, a chwarter yn aros am fwy na 106 diwrnod i ddechrau triniaeth ar gyfer eu canser.

Tra bod yr adroddiad wedi amlygu bod carreg filltir ystyrlon wedi'i chyrraedd drwy ehangu sgrinio i filoedd o bobl ychwanegol ar draws Cymru, datgelodd hefyd mai dim ond 21% o gleifion oedd wedi cael cynnig colonosgopi prydlon os oedd angen un arnynt, ffigur sylweddol is na'r targed sef 90%.

Mae angen eglurder, arweinyddiaeth gref, a goruchwyliaeth ar gynlluniau i wella gwasanaethau canser ac endosgopi yng Nghymru, ac mae'n rhaid i lywodraeth nesaf Cymru a Gweithrediaeth GIG Cymru gymryd rôl glir o ran cyflawni gwelliannau. Mae bylchau hir dymor yn y gweithlu canser, gan gynnwys oncolegwyr clinigol a phatholegwyr, yn effeithio ar amseroedd aros, profiad cleifion, a diagnosis cynnar.

Mae polisïau hir dymor a ariennir yn gwella canlyniadau canser a chyfraddau goroesi. Rydym yn cefnogi galwad Archwilio Cymru am ddull strategaethol o ddelio ag iechyd y boblogaeth ac atal clefydau, a allai achub bywydau a lleihau pwysau ar y GIG drwy fynd i'r afael â ffactorau sy'n cynyddu risg canser, gan gynnwys canser y coluddyn.

## Pethau y gallwch eu gwneud i helpu

Gyda chymorth ein hymgyrchwyr, rydym wedi creu rhwydwaith o eiriolwyr canser y coluddyn mewn seneddau yn San Steffan, Senedd Cymru, Stormont a Holyrood.

Gwleidyddion sy'n addo cefnogi ein gwaith ymgyrchu yn genedlaethol neu'n lleol yw eiriolwyr canser y coluddyn. Mae datblygu'r rhwydwaith o wleidyddion hwn yn ein helpu i ddylanwadu ar bolisi iechyd sy'n cael ei ddatblygu mewn llywodraethau. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn eiriolwr, neu ddysgu mwy am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch â ni yn campaigns@bowelcanceruk.org.uk




Tonia Antoniazzi, Aelod Seneddol dros etholaeth Gŵyr

Bowel Cancer UK
Beating bowel cancer together
Curo canser y coluddion gyda'n gilydd

Bowel Cancer UK
@bowelcanceruk

Rhif Elusen Gofrestredig 1071038 (Cymru a Lloegr) a SC040914 (Yr Alban)